# y dinesydd

Ebrill/Mai 1998 — PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH — Rhif 236



# *Y Dinesydd* yn dathlu ei ben-blwydd yn 25 mlwydd oed







Ceir atodiad sylweddol yn y rhifyn hwn sydd yn edrych yn ôl dros y chwarter canrif diwethaf yn hanes y papur a bywyd Cymraeg y ddinas.




NOSON DATHLU
PEN-BLWYDD
Y DINESYDD YN 25 OED
*Yng nghwmni*
Delwyn Siôn a'r band
CLWB IFOR BACH
NOS SADWRN, 13 MEHEFIN
*Tocynnau ar gael yng Nghlwb Ifor Bach neu gan aelodau o bwyllgor Y Dinesydd.*

**Diwrnod Corfforaethol**

Cofiwch am Ddiwrnod Golff Corfforaethol *Y Dinesydd* a gynhelir ddydd Iau, 2 Gorffennaf. Cynhelir y gystadleuaeth ar gwrs Yr Eglwys Newydd ac os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Ceri Preece, d/o Hugh James (ffôn: 224871; ffacs: 388222).

Cost tîm o bedwar fydd £180 a chost unigolyn fydd £45. Bydd hyn yn cynnwys ffi'r lawnt, bwyd a gwobrwyon safonol. Dim ond lle i 30 tîm fydd, felly gorau po gynta y gwnewch yn siwr o'ch lle.

Bydd yr holl elw yn mynd tuag at *Y Dinesydd*, sydd eleni yn dathlu 25 mlynedd ei sefydlu.

**Sylwer!** **Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol *Y Dinesydd* nos Iau, 21 Mai 1998**
am 7.30pm yng Nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina.
Dewch yn llu i gefnogi eich papur bro! **Pwysig!**

# Y Dinesydd

**Ebrill/Mai 1998, Rhif 236. ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Mehefin at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 28 Mai:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, 23 Kelvin Road, Y Rhath, Caerdydd (Ffôn:490687).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Gweithgareddau Dysgwyr:** Mr Gareth Kiff, Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Caerdydd (Ffôn: 486469/755475);
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 758106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ........................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................

.............................................. Côd Post: ....................

Rhif Ffôn: .................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ........................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................

.............................................. Côd Post: ....................

Rhif Ffôn: .................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## Calendr y Dinesydd

**Llun, 18 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cyfarfod Blynyddol, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.
**Llun, 18 Mai**
Clwb Gwawr Penarth: Ymweliad â Chanolfan Sglefrio Caerdydd. Manylion pellach: Tracy Jacobs (01222-307686).
**Llun, 18 Mai**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Iro Olwynion Diwydiant'. Darlith gan Dr Peredur Evans (Adran Beirianneg y Brifysgol), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.
**Mawrth, 19 Mai**
Cangen Merched y Wawr Llanbedr-y-fro: Ymweliad â Melin Gelligroes. Manylion pellach: Audrey Lake (01222-593776).
**Mawrth, 19 Mai**
Cymrodorion y Barri: Ymweliad ag Amgueddfa Crochendy Nantgarw, am 7.30 p.m.
**Mercher, 20 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Eleri Rogers, yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.
**Mercher, 20 Mai**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Cyfarfod o'r Gymdeithas yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, am 8.00 p.m.
**Iau, 21 Mai**
**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol *Y Dinesydd* yng nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina, am 7.30 p.m.**

**Iau, 28 Mai**
Clwb Gwawr Caerdydd: Helfa drysor mewn ceir. Manylion pellach: Bethan Anwyl (01222-383232).
**Sadwrn, 30 Mai**
Cyngerdd Organ gan Andrew Lumsden, organydd Egwys Gadeiriol Caerlwytgoed, yn Eglwys Dewi Sant am 7.30 p.m. Tocynnau: £6.
**Llun, 1 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Gwibdaith am 6.30 p.m. Manylion pellach: E. Haydn Jones (01222-620487).
**Mercher, 3 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: 'Siôn a Siân', yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.
**Iau, 11 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Canu mawl ger yr oleulong, am 7.30 p.m.
**Sadwrn, 13 Mehefin**
**Noson Dathlu Pen-blwydd *Y Dinesydd* yng nghwmni Delwyn Siôn a'r Band yng Nghlwb Ifor Bach.**

**Mercher, 17 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Côr yr Aelwyd, yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.
**Iau, 18 Mehefin**
Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch yn cyfarfod yn Churchills, Llandaf am 6 p.m. Siaradwraig: Rhian Anwen Roberts (Canolfan Mileniwm Cymru). Cyfarfod Blynyddol am 5.15 p.m.
**Iau, 2 Gorffennaf**
**Diwrnod Golff Corfforaethol *Y Dinesydd* ar Gwrs Golff yr Eglwys Newydd. Manylion pellach gan Ceri Preece (01222-224871).**

**Llun, 6 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Swper pentymor, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am [illegible] p.m.
**Sadwrn, 25 Gorffennaf - Gwener, 31 Gorffennaf**
Cwrs Haf Cymraeg yn Sain Dunwyd dan nawdd Adran Addysg Barhaol Prifysgol Caerdydd ar gyfer dysgwyr a Chymry rhugl. Manylion pellach gan Gwen Awbery (01222-874831).

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/**

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## Cymrodyr Anrhydeddus 1998

Yn ddiweddar cyhoeddodd Coleg Cerdd a Drama Cymru Gymrodoriaethau Anrhydeddus i Roy Bohana a Carlo Rizzi. Llongyfarchiadau iddynt ill dau.

## Canmlwyddiant Ysgol Dyffryn Nantlle

Mae'r ysgol yn gant oed eleni ac ymysg y gwahanol weithgareddau bydd aduniad i gyn-ddisgyblion ac athrawon. Cynhelir yr aduniad yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon, nos Sadwrn 12 Medi am 7.00 o'r gloch. Bydd y lluniaeth ar ffurf bwffe a'r mynediad trwy docyn am £8 y pen. Am ragor o fanylion neu docynnau cysyllter â Mrs. Beryl Roberts, Y Rheithordy, 2 Môr Awel, Pen-y-groes, Caernarfon, Gwynedd LL54 6RA gan anfon amlen â stamp arni gyda'r cais. Dylid cysylltu cyn diwedd Mehefin. (Sieciau'n daladwy i Ysgol Dyffryn Nantlle.)

### Cyngor Celfyddydau Cymru

**Trydydd pen-blwydd cyhoeddi grantiau Loteri**

Cyhoeddwyd nifer o grantiau yn ddiweddar ac yn eu plith dros £207 i Cartŵn Cymru, cwmni cynhyrchu ffilmiau animeiddiedig yng Nghaerdydd, i gynhyrchu ffilm 85 munud ar Bedair Cainc y Mabinogi a fydd yn cynnwys symudiadau byw ynghyd ag animeiddio.


Hefyd mae nifer o grwpiau cymunedol lleol yn elwa ar y dyfarniadau diweddaraf gan gynnwys Clwb Camera Caerdydd fydd yn derbyn dros £30 i brynu cyfarpar ffotograffig ac offer arddangosfa a fydd yn helpu aelodau i ddatblygu eu medrau ffotograffig.

## Canolfan Arddangos Oriel yn cau

Cafodd canolfan arddangos celf weledol a chrefftau Cyngor Celfyddydau Cymru yn Oriel ei chau ar 18 Ebrill. Ceir darpariaeth ar raddfa fwy gydag agoriad y ganolfan newydd yn hen adeilad llyfrgell y dref yn 1999. Ni fydd y datblygiad hwn yn cael unrhyw effaith ar siop lyfrau Oriel.

## Yn Eisiau – Garej!

Mae'r Amgueddfa Werin yn awyddus i ychwanegu garej (heb fod yn rhy fawr!) at ei chasgliad o adeiladau hanesyddol. Os gwyddoch am adeilad pwrpasol, neu am ffitiadau a chelfi gosod a ddefnyddid mewn garej, byddai'r Amgueddfa yn falch o glywed oddi wrthych. Ffoniwch Gerallt Nash ar 01222-573445 neu ysgrifennwch ato yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB.



Garej y Three Arches Cyf., Heol Heathwood, Caerdydd, c. 1948

## Y Cyfarfodydd Brig Ewropeaidd

Emyr Jones Parry yw'r gŵr sy'n gyfrifol am drefnu'r Cyfarfod Brig Ewropeaidd fydd yn dod i Gaerdydd ym mis Mehefin. Ef yw'r Cyfarwyddwr Materion Ewropeaidd yn y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad. Cafodd ei eni yng Nghaerfyrddin ond o achos mai banciwr oedd ei dad bu'n byw yn Llanbedr Pont Steffan, Casnewydd, Aberpennar a Phontarddulais. Bu'n ddisgybl yr un pryd â Barry John yn Ysgol y Gwendraeth ac yn olynydd i Neil Kinnock yn Llywydd Undeb y Myfyrwyr pan oedd yn astudio yng Ngholeg Caerdydd.

## Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd

Daeth tymor arall i ben yn hanes y gymdeithas uchod pan gynhaliwyd y swper Gŵyl Ddewi blynyddol yn festri Bethel nos Wener, 13 Mawrth.

Llywyddwyd y noson gan ein llywydd Mrs Sally Davies ac wedi'r bwyd blasus a hi a groesawodd ac a gyflwynodd ein gwraig wadd sef Miss Rhian Evans, Caerfyrddin.

Fe ŵyr y cyfarwydd am ei gwaith gyda'r deillion yn ei thre enedigol a'r tu hwnt. Disgrifiodd Rhian ei thaith ddiweddar i Batagonia yng nghwmni rhai o'i chyfeillion. Er iddi golli ei golwg erbyn cyrraedd 32 oed mae'n amlwg nad oes yna ball ar ei gweithgarwch. Ein braint ni oedd gwrando ar wraig eithriadol yn llawn hiwmor heb arlliw o hunandosturi yn ein hannerch.

Diolchwyd i Rhian gan is-lywydd y Gymdeithas, Dr Eirian Dafydd.

## Cantorion Ifainc

Dair blynedd ar ddeg yn ôl i eleni sefydlwyd Cystadleuaeth i Gantorion Ifainc Cymreig ac eleni bydd pum person ifanc yn ymddangos yn y rownd derfynol. Mae dau ohonyn nhw o Gaerdydd, Anthony Stuart Lloyd, y bas-bariton a Nicola Hollyman, y soprano. Cyn-ddisgybl o Ysgol Glantaf yw Anthony.

## Sbarduno Cymru

Llongyfarchion i Gareth Edwards, Rhiwbina, ar gael ei benodi'n Gyfarwyddwr Adrannol Sbardun Cymru. Amcan Sbardun Cymru yw hyrwyddo cyrsiau ar gyfer estyn croeso, hamdden/campau a thwristiaeth trwy Gymru. Tan benodiad Gareth doedd dim cydlynydd rhwng y gwahanol ardaloedd yr oedd Sbardun Cymru yn gweithredu ynddyn nhw. Gwaith Gareth fydd gweithredu fel canolbwynt i'r holl weithgareddau. Bydd y brif ganolfan yng Nghaerdydd gyda rhai llai yn Abertawe, Dinbych-y-Pysgod, Y Trallwng a Llandudno.

## Cyfarwyddwraig Newydd Llangollen

Llongyfarchion i Gwawr Owen, arweinydd Côr Caerdydd ar ei phenodiad i olynu Roy Bohana yn y flwyddyn 2000 yn Gyfarwyddwraig Gerdd Eisteddfod Ryngwladol Llangollen.


## 'Myfi Yw'

Bu cyngerdd gan Gôr Caerdydd yn y Tabernacl ddechrau Ebrill. Ynddo perfformiwyd *Myfi Yw* gan Derec Williams, Linda Griffiths a Penri Roberts. Y prif unawdydd oedd Aled Hall o Bencader. Yr unawdwyr eraill oedd Jason Bellis, Abigail Williams, Ceri Williams, Penry Thomas, Hugh Lloyd Morris a Peredur Evans. Cyfeiliwyd gan Euros Rhys Evans, Nia Rowlands, Neil Day a Jonathan Nelms. Noson i'w chofio!

## Cantorion John S. Davies

Ddechrau Ebrill perfformiwyd *Offeren y Garmargue* gan gantorion John S. Davies ar S4C. Comisiynwyd y gwaith i ddathlu ugeinfed pen-blwydd y côr. Y cyfansoddwr yw Alun Hoddinott a'r unawdydd oedd Jeremy Huw Williams, un o gyn-ddisgyblion Ysgol Glantaf. Recordiwyd y gwaith yng Nghadeirlan Llandaf. Siôn Lewis oedd yn cyfarwyddo'r rhaglen deledu.

## Pennaeth Drama newydd HTV : Peter Edwards



Pennaeth Drama newydd HTV yw Peter Edwards, un o gynhyrchwyr ffilm Cymru. Bydd yn ymuno â HTV o'i swydd bresennol yn Gyfarwyddwr Rheoli Lluniau Lliw, cwmni a sefydlwyd ganddo yn 1988. Ei amcan yw gosod HTV ar flaen y llwyfan ym myd y ddrama. Mae Peter (sydd wedi cynhyrchu nifer o ffilmiau o fri) yn briod â Delyth sydd â'i gwreiddiau yn Ystradgynlais. Mae hithau hefyd wedi dilyn gyrfa lwyddiannus ym myd y cyfryngau.

## Y Cynulliad Cenedlaethol - Gwersi o Ewrop?

Dyma deitl cyfarfod cyhoeddus a gynhelir ar y cyd gan Siarter 88 Caerdydd a Changen Caerdydd a'r Fro Ymgyrch Senedd i Gymru. Bydd am saith o'r gloch yr hwyr, 10 Mehefin, yng Nghanolfan Datblygu Cymunedol De Glanyrafon, Stryd Brunel, Caerdydd (y neuadd ar y daearlawr). Hubert Gieschen, ymchwilydd o'r Almaen, fydd yn annerch y cyfrafod.

## Cynlluniau Cymdogion Da Caerdydd a'r Fro

Yn ddiweddar cafodd Age Concern grant gan Gyngor Sir Caerdydd sy'n ei alluogi i ychwanegu pedair canolfan debyg at y rhai presennol. Erbyn hyn mae gan bob ardal yng Nghaerdydd ganolfan sy'n darparu gwybodaeth a chymorth i'r henoed. Amcan pob cynllun yw ceisio rhoi cymorth i'r hen a'r methedig trwy ymweliadau cyson â hwy yn eu cartrefi, darparu cludiant i ymweld â meddyg neu ddeintydd, siopa ychydig neu helpu gyda thasgau ysgafn ymarferol. Mae digon o gyfle i unrhyw wirfoddolwr a garai wneud hynny helpu. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag Age Concern (01222 521052). Os yn Y Fro y mae eich diddordeb, cysylltwch â 01446 795632. Os ydych chi dros drigain oed ac am wybodaeth mae Age Concern yn croesawu eich galwadau. Darperir hefyd wasanaeth eiriolaeth ar 01222 621111.

## Cylch Cinio'r Barri

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth ddiwedd y mis. Yn absenoldeb anorfod y gwr gwadd, Mr Emyr Daniel, cafodd yr aelodau gyfle i wrando ar Mr Islwyn Jones yn sgwrsio ar enwau eglwysi Bro Morgannwg. Dywedodd y gellid eu dosbarthu yn bum rhaniad cyfleus, sef enwau seintiau Gwyddelig, enwau seintiau Celtaidd Cymreig, enwau yn dilyn cwlt Mihangel, enwau Normanaidd Ysgrythurol ac enwau anhysbys. Noson hyfryd o frethyn cartre.

## Llongyfarchion

**Llongyfarchion** i Ann a Wyn Williams, Heol Newfoundlandn ar enedigaeth Beca, chware i Manon a Heledd. Wyn yw perchennog Cyfrifiaduron Dinas, Heol y Crwys ac mae'n barod bob amser i werthu cyfrifiadur neu roi gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Llongyfarchion** hefyd i Elen a Hywel. Mae'n dda ganddyn nhw gyhoeddi fod Jac wedi cyrraedd, sef Jac Elias Gwynne, wyr i Peter ac Elinor Elias Jones a John a Gwynne Williams, Pentyrch.

**Croeso** hefyd i Bethan Sarah, a ddaeth bythefnos yn hwyr. Merch yw hi i Robin a Rebecca Anderson, wyres dderbyniol iawn i Don a Mallt a nith i Anti Arran.

## Cronfa Goffa Shân Emlyn




Cyfrannwyd dros £1,200 i gronfa er cof am Shân Emlyn, ysgrifennydd Cymdeithas Cymry Ariannin a Golygydd *Y Dinesydd* am nifer o flynyddoedd. Mewn cyfarfod o bwyllgor Cymdeithas Cymry Ariannin yn Aberystwyth yn ddiweddar penodwyd Ceris Gruffudd, sy'n gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol, yn ysgrifennydd dros dro i'r Gymdeithas tan y cyfarfod blynyddol a gynhelir ym Mhabell y Cymdeithasau ar faes Eisteddfod Bro Ogwr ddydd Iau, 6 Awst am un o'r gloch.

## Cadeirydd Cwlwm Busnes

Cadeirydd newydd Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch yw Lewis Evans, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa'r Post yng Nghymru a'r Gororau. Brodor o Dregaron yw Mr Evans ond mae'n byw erbyn hyn yn Llandaf. Mae dros ddau gant o bobl o fyd busnes yn y ddinas wedi ymuno â'r sefydliad hwn. Yr ysgrifennydd yw Ceri Preece o Gwmni Hugh James. Bu'r cyn-gadeirydd Dafydd Hampson Jones o froceriaid Celtic Henderson Crosthwaite, yn gadeirydd ers sefydlu'r Cwlwm Busnes. Bellach bydd yn gyfrifol am geisio sefydlu rhwydwaith o sefydliadau busnes tebyg ym mhrif drefi Cymru a gobeithio y bydd cwlwm newyddion rhyngddyn nhw a'r *Dinesydd* yn ogystal.

## Cymdeithas Lyfryddol Caerdydd

Neilltuwyd cyfarfod olaf tymor Cylch Llyfryddol Caerdydd eleni i sôn am *Y Dinesydd*. Y Cadeirydd eleni yw Mr Hywel Jeffreys a manteisiodd ar ei gyfle ar ddechrau'r cyfarfod i gyfeirio'n annwyl at un o'r aelodau ffyddlonaf, Mrs Lili Richards, a fu farw'n ddiweddar, ychydig cyn iddi arfaethu teithio i Blas Buckingham i gael ei hanrhydeddu gan y frenhines. Cafwyd cyfraniadau gan W J Jones, Cen Williams, Mallt Anderson a Peter Bradley. Bu'r cyfarfod yn theatr Capel y Crwys.

## Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina

Gwilym Roberts, Llywydd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina, oedd y siaradwr gwadd yn y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ddechrau Ebrill. Siaradodd am Batagonia. Gan iddo dreulio cymaint o amser yno'n ddiweddar, roedd yn awdurdod ar ei faes a chafwyd noson wir ddiddorol yn ei gwmni.

## Cydymdeimlo

**Cydymdeimlwn** â'r Cynghorydd Chris Franks a'i deulu yn Ninas Powys ar farw'i dad. Bu'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel Bethesda, Dinas Powys.

**Cydymdeimlwn** hefyd â Robin Williams, yr Eglwys Newydd a'i dad, John Roberts Williams, Llanrug yn eu colled ddiweddar ym marw Ffion, chwaer Robin a merch John Roberts Williams.

**Cydymdeimlwn** â Huw ac Alun Reynolds ar farwolaeth eu tad yn Rhiwbina yn gynnar yn Ebrill.

**Cydymdeimlwn** hefyd â Lis Shore, Llanfair-pwll, bellach, ond gynt o Gaerdydd, ar farwolaeth ei mam ym Mhenceinewydd ger Chwilog.

**Cydymdeimlwn** â Carys Williams, Non a Sara o Landaf ar farwolaeth gwr a thad annwyl, sef Meurwyn Williams.

**Marw Mr Howard George**

Ddiwedd Mawrth collodd Eglwys y Crwys ei blaenor hynaf, Mr Howard George yn 85 oed. Collasai ei wraig, Eunice, rai blynyddoedd yn ôl ac fe'i coffeir mewn ffenest liw ar un o barwydydd y capel. Hanai Mr George yn wreiddiol o ardal Cwm-gwaun. Treuliodd lawer o flynyddoedd yn athro yn ardaloedd Bryn-mawr a Chaerdydd. Bydd y golled ar ei ôl yn fawr.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## Bethel, Rhiwbina

Brynhawn Sul, 15 Mawrth, croesawyd aelodau eglwysi Wesleaidd o ardal eang, o Bembre i Gaerdydd, i Fethel ar gyfer Oedfa o Fawl. Llywyddwyd gan y Gweinidog, y Parchedig D Haydn Thomas a'r arweinydd gwadd oedd y Parchedig Emrys Wyn Evans, Caersws. Yn ystod yr oedfa cafwyd anerchiad rymus gan Lywydd Cynhadledd yr Eglwys Fethodistaidd, y Parchedig Ddoctor John Taylor, Lerpwl. Fe'i cyflwynwyd gan y Parchedig Pamela Cram. Llongyfarchiadau i'r holl blant a dderbyniodd eu bathodynnau a'u tystysgrifau am gasglu at y Genhadaeth Dramor. Fe dderbyniodd dau o blant Bethel, Branwen Williams a Gareth Jones, fedalau arbennig am eu bod wedi casglu at y Genhadaeth ers sawl blwyddyn.

Hefyd ym Methel, ar 15 Mawrth, cafodd George, mab Delyth a Siôn Taverner, Birchgrove, ei fedyddio gan y Parchedig D Haydn Thomas.

## Minny Street yn dathlu Gŵyl Ddewi

Bu'r Gymdeithas yn dathlu'r ŵyl yng ngwesty Manor Park lle cafwyd swper blasus cyn anerchiad gwych gan un o'n haelodau, yr Athro Sioned Davies. Braint arbennig oedd cael ei chroesawu fel pennaeth newydd yr Adran Gymraeg yma yng Nghaerdydd ac mi roedd ei dawn darlithio ynghyd â'i diddordeb a'i gwybodaeth eang o chwedlau Cymraeg yn amlwg iawn mewn anerchiad cwbwl addas i ddathliad gŵyl ein nawddsant.

Gyda'r ŵyl yn syrthio ar y Sul, nid rhyfedd mai Gŵyl Ddewi oedd thema Gwasanaeth y Plant ar 1 Mawrth. Hyfrydwch oedd gweld cynifer o blant wedi dod ynghyd a hwythau mewn gwisgoedd traddodiadol. Y Gweinidog, y Parchedig Ieuan Davies, fu'n eu hannerch gan lwyddo i ennyn gwrandawiad llwyr a thanio dychymyg y plant (a'r oedolion!) wrth i'r "sêt fawr" gael ei llenwi â symbolau o Gymru a Chymreictod.

**Llongyfarchiadau** i deuluoedd dau faban newydd sef **Owain Roger** (mab i Gethin a Meryl Ellis, Y Mynydd Bychan) a **Rebecca Catrin** (merch i Armon a Nicola Daniels, Cyncoed).

## Salem, Treganna

### Sêr yn Salem

Cynhaliwyd "Sêr yn Salem" am y drydedd flwyddyn ar ddeg ar 6 Rhagfyr, 1997. Gwnaed elw o £942. Ychwanegwyd at y swm yna £1180, a gasglwyd ynghynt, a'u danfon i gefnogi prosiectau Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Ne'r Affrig.

### Bedyddio

Ar brynhawn Sul, 1 Chwefror, bedyddiwyd Gwenllian, merch fach Huw a Jennifer Roberts. Hyfryd oedd cael croesawu eu teuluoedd o ardal Treuddyn, Sir Fflint a Chydweli, Sir Gâr. Mae Huw yn Adran Newyddion y BBC tra bod Jennifer yn feddyg yn Adran Neuroleg, Ysbyty'r Brifysgol.

Yn ystod yr oedfa foreol ar 15 Chwefror, bedyddiwyd Aron, mab bychan Lowri a Geraint Cynan, brawd newydd Dyfed a Miriam ac ŵyr Dr a Mrs John Edward Williams, Y Betws, Rhydaman, a Mr a Mrs John Cynan Jones, Treorci.

### Gwasanaethau Gŵyl Ddewi yn Salem

Fore Sul, 1 Mawrth, daeth cynulleidfa dda i Gapel Salem i oedfa a drefnwyd ac a gynhaliwyd gan yr Ysgol Sul. Roedd y plant a'r bobl ifainc ar eu gorau wrth ein hatgoffa o fywyd a gwaith Dewi Sant a chewri eraill o'r gorffennol a wasanaethodd ein cenedl.

### Cinio Gŵyl Ddewi

Eleni eto aeth aelodau Salem i Westy'r Arth, Y Bont-faen, i ddathlu gŵyl ein nawddsant. Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni ein cyd-aelodau o dan gadeiryddiaeth Mrs Cath Thomas. Y gwr gwadd oedd Emyr Daniel a oedd ar ei orau wrth ein hannerch.

### Cwrdd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd

Braint Salem oedd cael croesawu y gwasanaeth ar 6 Mawrth. Cymerwyd rhan gan chwiorydd Bethel, Rhiwbina; Bethel, Penarth; Eglwys Minny Street a Salem. Anerchwyd y chwiorydd ar y thema "Pwy yw fy nghymydog" gan Mrs Cath Williams, Caplan Colegau Caerdydd ar ran Y Crwys a Salem. Yr arweinyddion oedd Mrs Doreen Thomas (Salem) a Mrs Winifred Llewellyn (Bethel Penarth).

### Llongyfarch

Cawsom gyfle i longyfarch dau o'n hieuenctid sy'n ddisgyblion yn Ysgol Glantaf ar ennill Ysgoloriaeth Evan Morgan i fynd i Goleg y Brifysgol Aberystwyth. Ymfalchïwn yn llwyddiant Gwenfair Michael a Dylan Jones. Mae Dylan hefyd wedi ei dderbyn i Goleg yr Iesu, Rhydychen.

## Cyngerdd Organ

Dywedir bod rhagor rhwng organ ac organ ac ar y tir hwn dywedir mai organ Eglwys Dewi Sant (Willis tri chwaraefwrdd) yw'r orau yn y ddinas. Oherwydd hyn mae Andrew Lumsden (sy'n ddarlithydd mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd) wedi dewis rhoi cyngerdd mawreddog yn Eglwys Dewi Sant nos Sadwrn, 30 Mai. Bydd hwn yn gyfle gwych i'r rhai sy'n hoffi gwrando ar seiniau'r organ glywed un o organyddion gorau Prydain yn dangos ei ddawn ar organ Willis dda. Ffurfiwyd Cardiff Organ Events yn Ionawr 1988 gan Robert Court a Philip Thomas gyda'r diben o hyrwyddo cerddoriaeth organ yn ardal Caerdydd. Mae hon yn ddegfed pen-blwydd felly ac mae'r Gymdeithas wedi darparu arlwy gyfoethog ar ein cyfer.

## Cartref Newydd Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg

Cynhaliwyd oedfa arbennig brynhawn Sadwrn, 14 Mawrth gan yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg i ddathlu agoriad swyddogol cartref newydd yr eglwys yn Rhymney St. Roedd yn achlysur hapus a chalonogol wrth weld nifer o ffrindiau yn ymuno â'r aelodau a braf oedd gweld y capel yn llawn. Daeth y Parch. Dafydd Protheroe Morris o Gaerfyrddin i bregethu a chafwyd neges oedd yn galondid ac yn her. Fel y dywedodd yn ei sylwadau agoriadol, peth amheuthun mewn dydd lle mae cynifer o gapeli yn cau, yw clywed am un yn ail-agor.

## CYMDEITHAS Y CYMOD YNG NGHYMRU

Dydd Sadwrn, 21 Mai, yng Nghapel Minny St.
11.00 am : Cyfarfod Cenedlaethol Cyffredinol
2.00 pm : Rob Fairmichael, Belfast yn cynnal gweithdy: 'Edrych ar Drais: Torri'r Trais'.

## GWYLNOS TAIZÉ

Nos Fawrth, 9 Mehefin, rhwng 11.00pm a 12.00am yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant St. Andreas.
(Cyfarfod Cymdeithas Cynefin y Werin)

# YSGOL GLANTAF

## Paris yn y gwanwyn - bron!

Cézanne, Monet, Da Vinci, Picasso, Mr Roberts, Mr Davies a Mrs Morse. Cafodd grŵp o ddisgyblion chweched dosbarth Glantaf gyfle i dreulio peth amser yng nghwmni'r cewri hyn yn un o ddinasoedd mwyaf rhamantaidd y byd.

Roedd yr Hôtel de la Lorette yn hynod o gyfleus i fynd o gwmpas y ddinas a chafwyd cyfle i ddarganfod rhyfeddodau'r Metro a 'Paris by night', yn ogystal â'r Orangerie, Musée d'Orsay a Musée du Rodin. Roedd yr ymweliad yn sail i waith cwrs Celf lefel A i rai, ac i'r gweddill ohonom yn brofiad pleserus tu hwnt!

**Sara Roberts**



Rhai o'r chweched yn y Musée d'Orsay

## Cyflwyno yn Llundain

Pan ddaeth Mr Jewell, un o athrawon Cymraeg yr ysgol i'm gwers Addysg Grefyddol un dydd Mawrth meddyliais am funud fy mod wedi gwneud rhywbeth o'i le. Wrth imi geisio meddwl pa reol a dorrais, esboniodd imi fod cwmni teledu Arad Goch wedi gofyn am bedwar plentyn call a deallus i gymryd rhan yn eu rhaglen i blant, Uned 5. Yn anffodus, ni ellid canfod pedwar plentyn o'r math yma ym mlwyddyn 10, ac felly bu'n rhaid i mi fynd!

I ffwrdd â mi, Melissa Annis, Christopher Mason a Catrin Aubrey felly ar y trên i Lundain gyda Nia Elin, y gyflwynwraig, Nia Môn, yr ymchwilwraig, ac Eleri Fôn, ein gwarcheidwraig. Ar ôl cyrraedd aethom i mewn i'r *Stakis Hyde Park Hotel* a mynd i'n hystafelloedd. Rhaid i mi gyfaddef, ces siom o'r ochr orau wrth agor y drws. Doeddwn i'n bendant ddim yn disgwyl ystafell mor braf (er y gallai'r olygfa ddiflas fod wedi bod yn well!)

Fore Llun, cyrhaeddasom ganolfan gynadledda Elisabeth II yn fuan, ac, wedi dod o hyd i'r criw, dechreuwyd ar y ffilmio. Roedd cant a mil o sesiynau i fynd iddynt, pobl i'w cyfweld, a phethau eraill i'w gwneud a dim ond wythnos i wneud hynny!

Fe lwyddom, er hyn, i dynnu rhywbeth at ei gilydd yn y diwedd, hyd yn oed os oedd hyn yn golygu gadael rai oriau'n hwyr ar y trên am adref.

Digwyddodd nifer o bethau diddorol yn ystod yr wythnos, gan gynnwys ymweliad â stiwdio cwmni pypedau Jim Henson, ymweliad gan y criw i Downing Street lle cawsant chwifiad oddi wrth y Prif Weinidog ac ymweliad â'r bwyty enwog *Planet Hollywood*. I weld beth arall y buom yn ei wneud bydd yn rhaid i chi wylio'r rhaglen! Roedd yn ddiddorol iawn cwrdd â phobl o ar draws y byd a chlywed am y rhaglenni y maent hwy yn eu gwylio.

Cafodd pawb wythnos wych yn Llundain ac rydym yn ddiolchgar iawn i Dime Goch am roi'r cyfle arbennig hwn i ni.

**Dafydd Elis**

## Gobaith i Gymru?

Cafodd Tom Roberts, Nicky Robinson a Geraint Williams eu dewis i gynrychioli Cymru yn y tîm rygbi dan 16oed yn y gêm yn erbyn Lloegr yn Twickenham ddydd Sadwrn, 28 Mawrth. Chwaraeodd y tri yn arbennig o dda a llwyddodd Nicky Robinson i sgorio cais o dan y pyst gan blesio'n fawr yr holl gefnogwyr a deithiodd o'r ysgol i weld y gêm. Y sgôr derfynol oedd Cymru 13, Lloegr 12.

Cafodd y tri eu dewis i chwarae eto yn erbyn Portiwgal ar Barc y Strade ddydd Iau, 9 Ebrill. Enillon nhw eto gyda Tom Roberts, y tro hwn, yn sgorio cais. Cafodd Rhodri Williams ei ddewis i chwarae dros Ysgolion Cymru yn y tîm dan 18 yn Portsmouth ddechrau mis Ebrill.



Y triawd yn eu gwisg swyddogol

## Mathemategwyr o fri!

Bu 64 o ddisgyblion Glantaf yn cystadlu yn y gystadleuaeth 'U.K. Intermediate Maths Challenge'. Cafwyd tipyn o lwyddiant gyda 44 disgybl yn llwyddo i ennill medal. Llongyfarchiadau i bawb ond rhaid enwi'r canlynol yn arbennig am iddynt ennill medalau aur - Leon Poole, Megan Evans, Marc Thomas a Thomas Brown.

## Cynulliad Pobl Ifainc, Mai 1998

Ym mis Mai fe fydd rhai o ddisgyblion blwyddyn 12 Glantaf yn mynychu'r 'Young People's G8 Summit Conference' yn Birmingham. Pwrpas y gynhadledd, sy'n noddedig gan BT, yw trafod materion sy'n poeni pobl ifainc y G8 (sef wyth gwlad fwyaf pwerus y byd). Felly mae'r perspectif yn un rhyngwladol iawn. Y nod arall yw llunio polisi ar faterion pobl ifainc o amgylch y byd gan gael y cyfle i ddylanwadu ar bolisïau gwledydd unigol a rhyngwladol.

Wrth gwrs mae yna lawer o baratoi i'w wneud ar gyfer cynhadledd o'r fath. Mae'r paratoi hwn yn cynnwys:

- mynychu cyfres o gynadleddau-fideo lle gellir cysylltu ag ysgolion o amgylch Prydain. Yn y gynhadledd a gynhaliwyd ar 11 Chwefror rhoddwyd cyflwyniad gan bedwar o aelodau'r cynllun ac fe drefnwyd cynhadledd-fideo arall yn yr ysgol yn fwy diweddar.
- mynychu cynadleddau yn Birmingham. Cafwyd cyfle i ddeg aelod o'r cynllun fynd i drafod yr agenda ar gyfer cynhadledd mis Mai yn Birmingham ar 20 Mawrth.

Yn y cyfamser mae modd i'r disgyblion gysylltu ag ysgolion eraill o amgylch y byd drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd. Ond un o'r paratoadau pwysicaf efallai yw'r gwaith ymchwil dwys sydd ei angen er mwyn deall yn dda yr hyn a drafodir. Mae'r holl weithgareddau yma yn dysgu sgiliau ymchwil, trafod, ehangu diwylliant, a gwybodaeth o faterion cyfoes rhyngwladol. Y gobaith yw y bydd y prosiect hwn yn llwyddo, nid yn unig i ddatblygu sgiliau pwysig ar ran y disgyblion, ond hefyd i wella buddiannau yr ifainc yn y byd ar gyfer y dyfodol.

**Hywel Williams**

# Pen-blwydd Hapus i'r
# Pen-blwydd Hapus i'r



# Pen-blwydd Hapus yn 25!

## 'BETH AMDANI, DDARLLENWYR?'

Gan i mi, rai blynyddoedd yn ôl bellach, ddisgrifio'n gyffredinol iawn sut y penderfynwyd cychwyn cyhoeddi'r *Dinesydd*, ac oherwydd imi wneud hynny yn ddiweddar eto ar gais y *Western Mail*, gwell imi geisio sôn am ryw wedd arall ar yr holl fater y tro hwn.



Dr Meredydd Evans
*Llun: Robin Griffith*

Eithr rhaid prysuro ar unwaith i ddiolch i'r cwmni diwyd hwnnw o wirfoddolwyr a'i cadwodd mewn bod am bum mlynedd ar hugain a dymuno'n dda i'w dilynwyr ar gyfer y chwarter canrif nesaf sy'n aros wrth y trothwy.

Yn arbennig, felly, y mae f'edmygedd o'r dyrnaid o weithwyr a fu'n pydru arni o'r cychwyn cyntaf hyd y dydd hwn yn ddi-ben-draw. Gwn pwy yw rhai ohonynt ond rhag dibynnu ar gof sy'n prysur ballu gyda llithriad blynyddoedd tecach a fyddai peidio ag enwi.

Mi garwn i bawb sy'n gysylltiedig â'r papur ar hyn o bryd wybod fy mod yn anfon y dymuniadau da hyn atyn nhw hefyd ar ran y rheini ohonom sy'n gweithio gyda phapur bro'r *Ddolen* gan wasanaethu'r ardaloedd a ffinia yn fras ar rediad afon Ystwyth ac sy'n ymestyn i'r de hyd at Lanrhystud. Mae'r *Ddolen* yntau ar drothwy ei ugeinfed flwyddyn yrŵan. Byddwn yn dathlu ym mis Medi.

Fel y gŵyr pawb sy'n stryffaglian i gynnal papurau bro, dydy arian ddim yn tyfu ar goed ac y mae cymhorthdal oddi wrth ryw gorff cyhoeddus neu'i gilydd yn dra derbyniol. Yn ddelfrydol, dylem geisio sefyll ar ein traed ein hunain, gyda'n cymunedau yn ein cynnal, ond nid gwaith hawdd yw hynny i lawer ohonom. O ganlyniad mae crafu am arian yn ddyletswydd barhaol.

Cofiaf yn dda mai crafu felly oedd hi yn hanes cynnar *Y Dinesydd* a chynigiodd Siân Edwards mewn dim o dro ein bod yn gwneud cais am gymhorthdal i Gyngor y Celfyddydau. Cawsom gefnogaeth barod gan Gyfarwyddwr Adran Lên y Cyngor, Meic Stephens, a'n cynghorodd ni i gyfeirio'n cais at Gymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru a oedd, bryd hynny, ar fin cael ei sefydlu. Rhoed ar ddeall inni mai polisi'r Cyngor, fel y cyfryw, oedd ceisio cael gan y Cymdeithasau Rhanbarthol arfaethedig i gefnogi mentrau megis newyddiaduron lleol, a.y.b.

Dyna gychwyn saga. Nid af i fanylu yn ei chylch ond er gwaethaf cefnogaeth swyddogion ac aelodau Panel Ymgynghorol Cymdeithas y Celfyddydau (a roes beth cymorth i ni ar y cychwyn) gwgu ar y fenter a wnaeth ei phwyllgor gwaith. Hynny am dri rheswm: (1) nid lle'r Gymdeithas oedd hybu'r iaith Gymraeg; (2) nid oedd yn rhan o bolisi Cyngor y Celfyddydau i roi cymhorthdal i newyddiaduron; (3) roedd *Y Dinesydd* yn wleidyddol ei naws.

Aeth y dadlau ymlaen am fisoedd lawer, a chawsom gefnogaeth Cyngor y Celfyddydau ar fwy nag un achlysur, ond ni symudodd Cymdeithas Celfyddydau De-Ddwyrain Cymru yr un fodfedd o'i lle.

Erbyn dechrau Ebrill 1975 roedd yn fain iawn arnom ond yna, tua mis Hydref, cawsom gyfle i gael ein gwynt atom. Trof yma at fy nyddiadur:

> ... Cymdeithas y Celfyddydau am roi £500 inni at *Y Dinesydd*. Anhygoel - ond derbyniol dros ben.
> Ni wn beth a achosodd y newid yn eu safbwynt.

'Tae waeth am hynny, achubwyd y papur hyd tua mis Ebrill 1976 yn sicr. Cododd calonnau a thorchwyd pob llewys yn uwch. Nid y byddem wedi anobeithio a rhoi'r ffidil yn y to ond roedd lleihau pwysau'r pryder ariannol yn fendith ddiamheuol ar y pryd.

Synnwn i fawr fod peth o'r pryder hwnnw yn dal i bwyso ar weithwyr *Y Dinesydd*. Beth amdani, ddarllenwyr? Does dim **rhaid** i neb dalu am y rhifynnau a ddaw iddyn nhw; does dim rhaid iddyn nhw **beidio** chwaith. Anfonwch gyfraniad bach blynyddol at y Trysorydd. Bydd mawr groeso iddo a bydd pawb ar eu hennill.

**Merêd**

# Ysbrydoli'r Weledigaeth Fawr

Y dyn ar dân, Meredydd Evans o Feirionnydd, a sefydlodd *Y Dinesydd*, a gwŷr a gwragedd (fel Shân Emlyn) ar dân yng Nghaerdydd a'i cynhaliodd cyhyd heb fawr o gefnogaeth sefydliadau cyfathrebu'r brifddinas.

Yn wir, ym Meirionnydd y gwelwyd y papur bro cyntaf pan gyhoeddodd O. M. Edwards lyfryn bychan *Seren y Mynydd* gyda newyddion bro Llanuwchllyn. Roedd Meirionnydd hefyd yn cynnal ei phapurau bro ei hunain. Yn Ffestiniog bu'r *Glorian* a'r *Gloch* a'r *Rhedegydd*, yn Y Bala *Y Seren* a'r *Cyfnod*, yn Nolgellau *Y Dydd*, yng Nghorwen *Yr Atsain* a'r *Eryr*.



John Roberts Williams
*Llun: Robin Griffith*

Erbyn hyn, ac wedi cyhoeddi'r *Dinesydd*, dechreuwyd sefydlu papurau bro trwy Gymru. *Papur Pawb* yng Ngheredigion, yn dwyn teitl yr olaf o bapurau newydd ceiniog Caernarfon, oedd y cyntaf rwy'n meddwl, ond erbyn hyn mae mwy na hanner cant a'r gwirfoddolwyr yn dygnu arni i'w diogelu.

Fu pob ymgais ddim yn llwyddiant. Yn Llanelli, a fu mor Gymreigaidd, aeth y papur bro i'r wal, ac yng Nghaernarfon o bobman - hen brifddinas yr inc - trodd pob ymgais yn fethiant. Eto, yn hen ardaloedd cyfagos y chwareli mae *Eco'r Wyddfa* yn un o'r papurau bro cyntaf. Os yn y trefi y sefydlwyd hen bapurau bro Meirion bu llawer o'r papurau bro newydd yn amharod i fynd i'r trefi.

Mae hyn yn biti, ond y papurau bro yw cymwynaswyr mawr y Gymraeg am eu bod yn cadw'r arferiad o ddarllen yr iaith. Medrir cymharu eu cyfraniad â chyfraniad cyfieithu'r Beibl. Am fod yna Feibl Cymraeg i'w ddarllen y cadwyd yr iaith rhag difancoll ac am fod yna bapurau bro'n dal i gynnal yr arferiad o ddarllen yr iaith y maent cyn bwysiced bob mymryn ag S4C - a'r Cynulliad hefyd. Heb ddarllenwyr, heb iaith.

Mae'r *Dinesydd* i'w fawrygu am iddo helpu i ysbrydoli'r weledigaeth fawr.

**John Roberts Williams**

---

## W.J. Jones yn cofio 25 mlynedd wrth ddathlu

Mae'n debyg mai dim ond fi o blith y criw bychan hwnnw yn hydref 1972 a ddaeth ynghyd i nifer o gyfarfodydd i ddechrau paratoi papur Cymraeg i Gaerdydd sy'n dal i lynu wrth y papur fel casglwr newyddion.

Tasg hunllefus yw edrych yn ôl dros gyfnod mor faith. Mae'n gas gen i'r holiaduron hynny sy'n gofyn i berson dicio mewn blwch arbennig i nodi ym mha grŵp oedran y mae. Ers cryn amser bellach, dim ond y blwch olaf sydd ar ôl i fi, ac mae'r blynyddoedd wedi cuddio llawer gormod o ddigwyddiadau o dan fwsogl hanes, trwy lwc i ddarllenwyr presennol *Y Dinesydd*.

Gwyddom i gyd mai babi Merêd yw'r papur. Pan ges i alwad ffôn gan Norman Williams, a oedd yn swyddog golygyddol gyda Gwasg y Brifysgol ar y pryd, yn gofyn imi ymuno â'r tîm fyddai'n gwthio cwch y babi o borthladd y wasg i gefnfor y dinasyddion, down i erioed (hyd y gwn) wedi torri gair â Merêd, ond pe bawn wedi cwrdd ag ef yn y cyfarfod cyntaf y bues i ynddo, byddwn wedi dweud wrtho mai ffolineb llwyr oedd meddwl am gychwyn papur Cymraeg i Gaerdydd a gallwn fod wedi rhestru llu o resymau o blaid fy nadl.

Ond pan gamais i i'r cwch, roedd proffwydi gwell na mi wrth y llyw, llawer o'r braenaru wedi digwydd, argraffydd wedi cael ei ystyried a dosbarthu'n cael ei gynllunio.

Un o'r amcanion pwysicaf wrth ddechrau rhwyfo'r cwch oedd gobeithio rhwydo'r deng mil a mwy o Gymry Cymraeg sy'n byw yn y ddinas nad ydyn nhw'n aelodau o unrhyw gymdeithas sydd ynghlwm wrth fyd crefydd gyfundrefnol, byd sydd wedi creu ei gymdeithas glòs ei hun yn ei gorlan ei hun, a does dim o'i le ar hynny. Roedd gobaith y gellid llunio rhyw fath o borthladd *Y Dinesydd* i'r lleill. Yn y cyfarfod cyntaf, rhannwyd y ddinas yn ardaloedd a cheisiwyd meddwl am bobl Gymraeg eu hiaith yn yr ardaloedd hynny fyddai'n barod efallai i gyfrannu pwt o newydd yn fisol ar rywbeth a allai fod o ddiddordeb cyffredinol - fel babi i bwy oedd wedi cael ei eni, pwy oedd newydd farw, pwy oedd wedi dod i, neu wedi mynd o'r ddinas, pwy fu'n llwyddiannus mewn unrhyw ffordd mewn unrhyw faes, cyfarfodydd diddorol ac ati.

Os da y cofiaf, ni allai neb oedd yn y cyfarfod cyntaf feddwl am unrhyw Gymro Cymraeg oedd yn byw yn Sblot ond wrth i'r papur ddatblygu ces i (ac eraill) y dasg o gysylltu â nifer o'r bobl a enwyd. Roedd rhai'n frwdfrydig, eraill yn teimlo na fyddai papur Cymraeg yn para'n hir yn y ddinas, a doedd dim diddordeb gan rai mewn cyfrannu dim. Mae brwdfrydedd, difaterwch a diffyg brwdfrydedd fel ei gilydd wedi bod gyda ni drwy'r blynyddoedd.

I fesur llwyddiant y delfryd cyntaf, trowch i'r rhifyn hwn a gweld tudalen i'r capeli Cymraeg ac mae newyddion byd crefydd yn brigo mewn mannau eraill; newyddion eildwym yn aml, sy'n hawdd eu cael mewn cyfyngder. Fel un sy'n ceisio casglu newyddion ehangach eu hapêl, gwn pa mor anodd y gall hynny fod; eto pan gaf air â hwn a'r llall ynghylch y papur, galw am ragor o newyddion o'r byd a llai o'r betws y mae nifer o'r darllenwyr presennol, y math o newyddion fyddai'n tynnu'r Cymry Cymraeg at ei gilydd.

Mae tipyn o fynd a dod a llwyddiannau mewn mannau fel Ysbyty'r Brifysgol, Coleg y Brifysgol, y cyfryngau, yr ysgolion ac ati, ond mae'n anodd cael y llu pobl ifanc sydd yn y mannau hynny i gyfrannu dim. Mae mwy nag un ifanc wedi ysgrifennu ataf neu ddod i bwyllgor yn llawn brwdfrydedd - cyn diflannu megis niwl y bore, ond gallwn ddweud fel Dafydd Iwan - rydyn ni yma o hyd!

**I ddathlu pen-blwydd *Y Dinesydd* yn 25 oed gwahoddwyd ein cartwnydd, Cen Williams, i gribo drwy'r hen rifynnau ac i'n hatgoffa o rai o'i gartwnau a gyhoeddwyd yn y papur. Dyma gyfle inni ail-fyw rhai o ddigwyddiadau arbennig a ddaliodd sylw'r cartwnydd yn ystod y chwarter canrif diwethaf.**




**Penodi Dr David Dykes - cyfarwyddwr newydd yr Amgueddfa Genedlaethol**
***Rhifyn 123 Mawrth 1986***





***Rhifyn 95 Ebrill 1983***

**Dau o gyn-olygyddion y papur a anfarwolwyd ar dudalenau'r *Dinesydd***


GRANT I'R DINESYDD? — DIM FFIARS O BERYG

**Ymadawiad Norman Williams i weithio i Gyngor y Celfyddydau ym Mangor**
***Rhifyn 22 Gorffennaf / Awst 1975***



**ac Aled Islwyn, enillydd Gwobr Goffa Daniel Owen 1980 a 1985**
***Rhifyn 118 Medi 1985***




**Gwesty'r Beverley yn atal gweithwyr rhag siarad Cymraeg**
***Rhifyn 179 Rhagfyr 1991***




**Darlledu arloesol Gareth Glynne - ugain mlynedd o flaen ei oes!**
***Rhifyn 54 Rhagfyr 1978***




**Derbyn Meic Stephens, cyn-Gyfarwyddwr Llenyddiaeth Cyngor y Celfyddydau, i Orsedd y Beirdd**
***Rhifyn 59 Mehehin / Gorffennaf 1979***


*Llydaweg os gwelwch yn dda.*




**Agor Boulevard de Nantes**
***Rhifyn 20 Mai 1975***




**Gwilym Roberts - Llywydd Eisteddfod yr Urdd, Y Barri 1977**
***Rhifyn 40 Mehefin 1977***




Rhifyn 25 Tachwedd 1975




Y Clwb Rygbi yn cytuno i beidio
â siarad Cymraeg ar y cae
*Rhifyn 118 Medi 1985*





David Meredith, lledmerydd HTV a chyfarwynydd 'Pwy fase'n Meddwl' yn myfyrio dros bolisi ei gwmni ynglŷn â sefydlu sianel Gymraeg
*Rhifyn 60 Awst / Medi 1979*



Owain Arwel Hughes yn torri ei fraich
*Rhifyn 121 Rhagfyr / Ionawr 1985-6*




Pwyllgor Canolfan yr Urdd -
ar ôl y fenter arlwyo!
*Rhifyn 32 Gorffennaf/Awst 1976*


*Y Dinesydd* yn newid ei ddelwedd am gyfnod
*Rhifyn 73 Rhagfyr 1980*




Ymateb i ddatganiad Gwilym Owen
"Dydw i ddim am feirniadu crachach dosbarth canol Caerdydd - dim ond "...
*Rhifyn 117 Gorffennaf / Awst 1985*

Cyhuddo aelod o gwmni theatrig o gam-drin pysgodyn aur yn fwriadol.
Achos yn Llys Ynadon Caerdydd - 9: 11: 1978
*Rhifyn Hydref / Tachwedd 1978*




Y sychdwr mawr
*Rhifyn 31 Mehefin 1976*






Llifogydd mawr Rhagfyr 1979. Roedd ardaloedd o Bontcana, Tregana a Glan-yr-afon gan gynnwys adeilad ein hargraffydd ar y pryd, dan droedfeddi o ddŵr.
*Rhifyn 64 Ionawr / Chwefror 1980*




Y ffilm 'Jaws' yng Nghaerdydd
*Rhifyn 27 Ionawr / Chwefror 1976*




Adolygiad o Nia Ben Aur -
Ysgol Gyfun Llanhari
*Rhifyn 78 Mehefin 1981*




Ethol W.J. Gruffydd yn Archdderwydd ar ôl i WJ (ni) sgwennu molawd i gampau academaidd y cartwnydd yn y rhifyn blaenorol o'r *Dinesydd*.
***Rhifyn 99 Medi 1983***




I gyd-fynd ag erthygl yn olrhain hanes un o deithiau cerdded aelodau Capel y Crwys.
***Rhifyn 77 Mai 1981***




**John Albert yn gwerthu hufen iâ yn Eisteddfod Aberteifi 1976 (am fersiwn modern o'r llun, rhowch Tipp-ex ar ei wallt)**
***Rhifyn 32 Gorffennaf / Awst 1976***




**S4C yn symud i Lanisien.**
***Rhifyn 169 Tach/Rhag1990***




Cymdeithas yr Iaith yn dosbarthu cylchgronau Cymraeg yn ysbytai a meddygfeydd Caerdydd
***Rhifyn 110 Hydref 1984***




Ymdrechion diflino Owen John Thomas ac eraill i gael hyd i adeilad addas i'r clwb Cymraeg (ymhell cyn dyddiau Ifor Bach)
***Rhifyn 93 Chwefror 1983***





S4C yn 10 oed a darganfod pecyn amheus yn yr adeilad!
***Rhifyn 188 Tachwedd 1992***




**Damwain yn siop Oriel, Heol Siarl**
***Rhifyn 28 Mawrth 1976***




**Presenoldeb aelod blaenllaw o CND ym mywyd yr arglwydd!**
***Rhif 170 Chwefror 1991***




**Lluniau'r meistri o'r Amgueddfa yn ymweld â Siapan**
***Rhifyn 122 Chwefror 1986***




Datganiad fod Ysgol Maestir am ei symud i'r Amgueddfa Werin
***Rhifyn 78 Mehefin 1981***







**Gaeaf caled 1979 yn effeithio ar Ysgol Llanhari dro ar ôl tro!**
*Rhifyn 56 Chwefror 1979*




**Lleoli 'Steddfod yr Urdd Caerdydd yn y Ganolfan Chwaraeon**
*Rhifyn 116 Mehefin 1985*





**Pwyllgor Canolfan yr Urdd yn gyfrifol am barcio ceir ar ffurf bathodyn Yr Urdd yn Eisteddfod Caerdydd 1978**
*Rhifyn 52 Medi 1978*





**Dymchwel mur Berlin a ....**
*Rhifyn 160 Ionawr 1990*

**Trafferthion gyrru cyn-aelod blaenllaw o Adran Materion Cyfoes HTV**
*Rhifyn 141 Rhagfyr / Ionawr 1987-8*






**Cyflwyno'r Beibl Newydd yn Eglwys Y Tabernacl**
*Rhifyn 143 Mawrth 1988 (Cyhoeddwyd gyntaf yn Sbec)*




**Arddangosfa'r deinosoriaid yn ymweld â'r Amgueddfa Genedlaethol**
*Rhifyn 166 Gorffennaf / Awst 1990*




**Tân yn adeilad HTV ym Mhontcana**
*Rhifyn 128 Medi 1986*

## Atgofion 'dosbarthwr' *Y Dinesydd.*

Does gen i ddim syniad am ba hyd y bûm i'n gyfrifol am dderbyn, didoli a dosrannu'r papur i'w roi yn dwt a thaclus i'r rhai a ofalai fod ein darllenwyr yn cael eu 'fix' misol o hanes ein bro. O Gaerdydd i'r Bont-faen, lan i Bontypridd, draw at Abercarn ac i lawr i Benarth. Capeli, ysgolion, ambell dŷ tafarn a chlwb - pob un dan ofal rhyw enw (er ei bod hi'n echrydus o anodd cael gwared ar ambell becyn). Nid y gofidiau mawr fel cael y papur ar ôl i'r ysgolion gau am yr haf sy'n dal yn y cof, ond ambell gameo bach sy'n dod â gwên i'r wyneb, ambell sefyllfa na welir ei doniolach ar unrhyw sgrîn. Ac mi hoffwn i rannu rhai o'r cameos bach yma â chi.

**Cameo 1:** Prynu car newydd.
Rywsut rywfodd, yn weddol gynnar yn fy ngyrfa 'ddosbarthol' fe gollais i bob ffydd yn yr arwydd sy'n cynnwys y gair 'delivery' ar ôl gorfod talu (yn ddrud) am barcio mewn lle a oedd wedi ei nodi yn glir mewn Saesneg hollol ddealladwy fel lle cymwys i wneud 'delivery' - a hynny am nad oedd gen i 'hatch back'. Bu dadlau hir ond ofer, neb yn fy nghredu fod dosbarthu ein papur bro o fewn terfynau'r ddinas yn dod i mewn i'r categori cywir.

Felly, pan ddaeth yr amser fe brynais yr 'hatch' angenrheidiol - a wir i chi fe wellodd pethau ... darllenwch y cameo nesaf!

**Cameo 2** : Dyna lle'r o'wn i wedi parcio'n dwt o flaen drws Siop Oriel gyda dau focs torllengigol o drwm i'w gadael yn y siop. Nawr, mi wyddwn i'n iawn fod yna linellau dwbwl (o leia) a bod yna gorlan tacsis - ond yr oeddwn i wedi prynu 'hatch' **ac** yr oeddwn yn gwneud 'delivery'. Felly dyma gynnau y fflachiadau i rybuddio'r cyhoedd fy mod i yno. Allan o'r car, a straffaglu i dreio codi'r bocsys i'w rhoi ar do'r car fel fy mod i'n gallu cloi'r drysau cyn mynd ar fy nwy siwrnai i'r siop. Credwch neu beidio, ar yr union eiliad yr oeddwn i'n wargrwm godi bocsys dyma DDAU Warden Traffig yn sefyll yn union gyferbyn â fi; mewn anghrediniaeth lwyr dyma fi'n rhoi ebychiad uchel a chlywadwy, yn barod i ddechrau unwaith yn rhagor ar fy stori, ond cyn i mi orffen yr ebychiad dyma un o'r Wardens yn gofyn a oeddwn i'n teimlo'n iawn - a dyma fy nghyfle! Rhoddais 'wel' fach wanllyd, a dyma'r ddau Warden yn cydio yn y bocsys a mynd â nhw i ben eu taith. Welsoch chi neb yn eich bywyd yn gadael y lle gyda mwy o gyflymdra nac a ddangosais i y diwrnod hwnnw.


A rhag ofn eich diflasu dyma'r **cameo olaf**.
Lleoliad - Llyfrgell y Ddinas, finne â dau focs o'r papur wrth ddrws y lifft. Pan ddaeth, dyma roi un bocs i mewn, ond cyn i mi gael cyfle i mofyn yr ail dyma lond lifft o ddyn i mewn a gwasgu'r botwm. Ar y llawr nesaf yr oedd yna lond lifft o bobl am fynd i lawr ac i mewn â nhw cyn i mi gael amser i godi'r bocs, a lawr â ni eto. "Wel, o leia mi fydda i a'r ddau focs ar yr un llawr", meddyliais. Cyrhaeddodd y lifft y llawr isaf ac allan â fi gan adael y bocs yn y lifft, ond yr oedd y gwasgwyr botymau yn gyflymach na dosbarthwr *Y Dinesydd* ac fe aeth y lifft gan fy ngadael i ac un bocs y tu allan - felly roedd un bocs yn trafaelu a finne a'r bocs arall heb fod yn rhan o'r prysurdeb. "Tro nesa' amdani," meddyliais, ac fe ddaeth y lifft, ond erbyn hyn yr oedd un dyn wedi sylwi fod yna focs yn trafaelu heb neb yn ei warchod, ac fel dinesydd da dyma fe'n dod â'r bocs 'peryglus' allan o'r lifft, a dyna fi yn dal ar y llawr gwaelod wedi ail-berchnogi fy mocs. Fe ddeallodd gwraig fy mhicil ac fe gawd y papur bro ei roi yn nwylo diogel Bryn, y Llyfrgellydd.

Pwy sy'n cofio'r Cawl Calan? Nifer ohonon ni'r gwragedd yn cael yr un rysáit fel bo lliw'r cawl cennin rywbeth yn debyg - dyna oedd y syniad. Aildwymo'r holl ymdrechion cawlaidd mewn boiler Burco - a gofalu peidio â gadael i'r gwaelod 'gydio', ond fwy nag unwaith ddigwyddodd pethau ddim yn hollol fel yr hoffai Shân iddynt wneud - oes mae 'na gyfrinachau! Mae gen i gopi o rysáit cawl *Y Dinesydd*, croeso i unrhyw un ei chael! O, ie! Rwy'n cofio chwilio trwy hen gopïau am 'do bach' ar gyfer y papur oedd yn cael ei ludo ond mae pethau wedi newid. Erbyn heddiw does dim sôn am droi un llythyren â'i phen i lawr er mwyn creu llythyren arall. Byd newydd, pobl newydd, peiriannau newydd, ond yr un *Dinesydd*. Diolch amdano, a does gen i ond gobeithio fod gweithwyr heddiw yn cael cymaint o hwyl ac a gawsom ni.

Pen-blwydd hapus!

**Mallt Anderson**

O.N. Mae gen i grys T y *Dinesydd Dyddiol*. Oes yna rywun o werthwyr y papur yn cofio mynd o gwmpas maes Eisteddfod Caerdydd yn ei werthu? Mi gafodd aelod ifanc o 'nheulu i sawl llond bol o frechdanau 'steak' o'r elw a wnaeth wrth werthu'r papur. Oes gan un o'r plant hynny atgofion, tybed?



Aran Anderson, merch Mallt, yn gwerthu'r *Dinesydd*

## Chwarter Canrif? - Rhyw gwta bythefnos!

"Gawn ni sgwrs dros damad o ginio?" Dyna oedd y gwahoddiad ymddangosiadol ddiniwed a dderbyniais gan yr arch-berswadiwr hwnnw, y Dr Meredydd Evans, chwarter canrif yn ôl bellach.

Yn y broses o drïo setlo i lawr yng Nghaerdydd yr oeddwn, mewn swydd barchus yng Ngwasg Prifysgol Cymru, ar ôl gyrfa golegol ym Mangor lle disgleiriais mewn cymdeithasu yn hytrach na gwaith academaidd.

I mi, roedd mwy o foddhad i'w gael wrth olygu'r *Dyfodol* - papur Cymraeg y myfyrwyr, a chyfrannu i *Bronco* - y papur rag, nag oedd wrth astudio hen Gymraeg ar gerrig beddau. A dyna'r pedigri ddaeth â fi i sylw'r criw bychan a ddaeth at ei gilydd yng Nghaerdydd ym 1972 i drafod y posibilrwydd o greu papur Cymraeg yn y brifddinas.

Yn rhinwedd fy swydd efo Gwasg y Brifysgol, buan y sylweddolais cyn lleied oedd yna o ddarllen, nid yn unig llyfrau Cymraeg ond hefyd papurau a chylchgronau. Roedd ymweld â siopau llyfrau Caerdydd yn dyst o hynny. Wrth brosesu grantiau'r Llywodraeth i weisg Cymraeg, trist oedd sylweddoli cyn lleied o werthiant oedd yna hyd yn oed i'r deunydd mwya poblogaidd. Sefyllfa drist ac un hollol anfoddhaol.

Yn gymdeithasol hefyd bu symud i Gaerdydd yn gryn sioc i'r sustem ar ôl magwraeth mewn cymdeithas glòs wledig yn Arfon. Ble'r oedd y miloedd a siaradai Cymraeg yng Nghaerdydd a'r cyffiniau? Be' oedd eu hanes nhw ac a oedd modd dod â nhw yn nes at ei gilydd?

Dwi ddim yn cofio llawer am y cinio - ond fe wnaeth Merêd argraff fawr arnaf - argraff na phylodd dros y blynyddoedd. Merêd oedd yr ysbrydoliaeth y tu ôl i'r *Dinesydd* - os oedd Merêd yn gofyn, ychydig a wrthodai, fel y gwn yn rhy dda wrth imi gael fy mherswadio i fod yn Olygydd a llu o rai eraill yn ymgymryd â'r myrdd o ddyletswyddau oedd angen eu hystyried wrth ymgymryd â phrosiect mor uchelgeisiol.

Sefydlwyd is-bwyllgorau i ymchwilio i feysydd megis casglu newyddion, casglu hysbysebion, dulliau argraffu a dosbarthu tra bod Merêd yn dechrau codi arian! Cymanfaoedd Codi'r To oedd yr ysbrydoliaeth fawr a Merêd a Phyllis yn casglu ynghyd mewn llyfryn bach hynod boblogaidd ddegau o ganeuon i'w canu mewn achlysuron o'r fath. Ar ôl misoedd lawer o waith caled ymddangosodd y rhifyn cynta ym mis Ebrill 1973 gyda 5,000 o gopïau yn cael eu hargraffu. Bu ymateb da iddo a denodd sylw eang ar y cyfryngau yn Gymraeg a Saesneg. "Sut bapur ydi hwn, Mr Williams?" holodd un newyddiadurwr. "Perforated?!"

O'r sylw yma deilliodd rhywbeth llawer mwy cynhyrfus wrth i ardaloedd eraill yng Nghymru holi am gyngor ynglŷn â chychwyn newyddiadur o'r fath. Doeddwn i fawr o feddwl y byddwn, flynyddoedd ar ôl gadael Caerdydd, yn mynychu cyfarfodydd ledled y Gogledd i gynorthwyo eraill i wireddu breuddwydion cyffelyb.

Datblygodd mudiad y Papurau Bro yn un o wyrthiau Cymreig yr ugeinfed ganrif gan fynd â'r Gymraeg i aelwydydd lle na fu ond y *Sun* a'r *Mirror* cyn hynny. Bu cyfraniad *Y Dinesydd* yn holl bwysig yn y chwyldro yma a does ond gobeithio y bydd yn parhau am chwarter canrif arall.

Cofiaf yn arbennig ddod adref yn hwyr iawn ryw noson a gweld David Meredith (y Trefnydd Hysbysebion) yn eistedd yn llechwraidd yn ei gar y tu allan i'r tŷ. "Ers pryd wyt ti yna?" medda finna. "Rhyw gwta bythefnos!" oedd yr ateb.

A dyna sy'n ddychryn wrth edrych yn ôl - mae'r chwarter canrif aeth heibio yn teimlo fel rhyw gwta bythefnos!

**Norman Williams**

## ■□■□ Ap Lewsyn ■□■□



Gwyn Lewis Davies
*Llun: Robin Griffith*

Roedd llawer iawn o ddarllenwyr *Y Dinesydd* yn siomedig pan ddaeth rhifyn Chwefror '98 o'r wasg gan nad oedd yn cynnwys y croesair misol. Ar ôl dwy flynedd ar bymtheg mae Gwyn Lewis Davies wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r gwaith o gynhyrchu'r croeseiriau sy wedi rhoi cymaint o bleser (heb sôn am rwystredigaeth) i gynifer o bobl. Gan fod deg croesair yn ymddangos pob blwyddyn gydag oddeutu deg cliw ar hugain i bob un gellid amcangyfrif bod Ap Lewsyn wedi herio'i ddarpar ddatryswyr â phum mil o gliwiau, rhai ohonyn nhw'n gryptig, rhai yn anagramau a rhai yn gliwiau oedd yn gofyn am wybodaeth o Feibl neu Flodeugerdd. Adlewyrchiad o wybodaeth eang a diwylliant Gwyn ei hun yw'r posau hynny; er ei fod yn wyddonydd (enillodd radd M.Sc. gyda'i thesis "Reaction Velocity of Bi-molecular Reactors") bu'n ddarllenwr mawr ers dyddiau ei blentyndod yng Nghymer Afan a'i ddileit yw llenyddiaeth Gymraeg. Fel un sy wedi bod yn athro ac yn brifathro (yng Ngholeg Hyfforddi Brys Harrogate ac Ysgol Uwchradd Tywyn) mae'n siŵr y base'n falch o ddeall bod ambell gystadleuydd wedi dysgu talpau o farddoniaeth a phenodau o adnodau yn sgîl ei ymdrechion i gwblhau'r croesair.

Nid y croesair yw ei unig gyfraniad i'r *Dinesydd*; bu'n aelod ffyddlon o'r pwyllgor am gyfnod hir ac un o bleserau ei gyd-aelodau fyddai gwrando ar Raymond Edwards ac yntau yn rhoi'r byd yn ei le am hanner awr ar ôl i'r trafodaethau swyddogol ddod i ben.

Ers iddo ymddeol yn 1966 ac ymsefydlu yng Nghaerdydd bu'n gefn cadarn i fywyd Cymraeg y ddinas, yn ffyddlon i'r Gymdeithas Wyddonol, i'r Clwb Cinio ac wrth gwrs i'w gapel.

Erbyn hyn mae Gwyn yn gyrru 'buggy' trydanol yn hytrach na char a'i deithiau felly yn fwy cyfyngedig. Ond y llynedd, fe aeth i bellteroedd byd i ymweld â'i fab, Peter, sy'n teithio Ynysoedd Môr y De yn rhinwedd ei swydd fel aelod o Fwrdd Arholiadau Prifysgol Fiji. Ac mae'n gwybod bod croeso mawr iddo bob amser yng nghartref ei ferch, Morfydd, a'i gŵr yn ardal Llangynidr.

Diolch i Ap Lewsyn am ei gyfraniad enfawr i'n papur bro a diolch hefyd, yn fwy na dim, am ei gymeriad hynaws.

**Nia Hall Williams**

# LLWYDDIANNAU'R YSGOLION CYMRAEG

## Sêr Byd y Bêl

Er mai trychinebus yw'r unig air i ddisgrifio tîm rygbi oedolion Cymru, mae gobaith yn y dyfodol ym myd ein bechgyn ifainc. Rai wythnosau'n ôl, enillodd y tîm pêl-droed o dan bymtheg yn erbyn Gogledd Iwerddon o ddwy gôl i ddim, hynny mewn gêm galed o dan lifoleuadau ym Mharc Ninian. Roedd tri o'r bechgyn o ardal *Y Dinesydd*. Mae Rhodri Jones (fydd yn ymuno â Manchester United ar derfyn ei arholiadau TGAU) yn gyn-aelod o dîm pêl-droed enwog Ysgol y Wern ac yn ddisgybl yn Ysgol Glantaf ar hyn o bryd. Ef yw capten tîm pêl-droed pobl ifainc y ddinas. Mae Kyle Sheppard yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Llanrhymni. Aeth yno o Ysgol Glan-yr-afon ac mae'n gobeithio ymuno ag Everton. Aeth y trydydd chwaraewr o Ysgol Peter Lea i Ysgol Uwchradd Cantonian. Mae ei fryd ar chwarae i Wolverhampton Wanderers yn y dyfodol.

## Uned Feithrin Newydd

Mae ym mwriad Cyngor Dinas Caerdydd sefydlu Uned Feithrin ym Medi 1998 ar safle Ysgol Gynradd Eglwys Wen ac Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd. Caiff plant eu derbyn yn rhan amser a bydd lle i tua 40 i gael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg ac i tua 40 gael addysg trwy gyfrwng y Saesneg.

## Beirniad teledu o bwys



Yn gynnar ym mis Mawrth bu Emyr Dewi James, deuddeg oed a disgybl yn Ysgol Glantaf, yn cynrychioli Cymru mewn cynhadledd ar raglenni teledu i blant.

Cynhaliwyd y 'First World Summit on Television for Children' ym Melbourne, Awstralia yn 1995 a bu'r ail uwch-gynhadledd yn Llundain rai wythnosau'n ôl. Ynddi trafodwyd cynnwys rhaglenni, gwleidyddiaeth mewn rhaglenni plant, ariannu ac effaith technoleg newydd ar raglenni plant, gan gynhyrchwyr, ysgrifenwyr, gwleidyddion ac athrawon o bedwar ban byd. Roedd Emyr yn un o ddeg ar hugain o bobl ifainc oedd yn rhoi eu syniadau a'u barn mewn cyfres o bedwar dosbarth meistr. Roedd ef ac eraill yn paratoi cyflwyniadau i oedolion yr uwch-gynhadledd. Roedd yn dda'i weld ar y teledu beth amser yn ôl yn traddodi mor huawdl ar fyd y teledu. Gŵr ifanc sydd o gwmpas ei bethau yw Emyr.

## Sêr Byd y Ffilmiau

Nodwyd mewn rhifyn blaenorol o'r *Dinesydd* i Ioan Gruffudd chwarae rhan bwysig yn y ffilm, *Titanic*. Cafodd ei goluro gan Siân Grigg, hithau'n ddisgybl o Ysgol Glantaf. Ei phrif waith hi oedd coluro Leonardo Di Caprio, un o sêr y ffilm. Mae Ioan Gruffudd yn dal yn brysur. Ar hyn o bryd mae'n action yn y ffilm *Solomon and Gaynor* lle mae'n chwarae rhan bachgen Iddewig ac mae wedi gorfod dysgu tipyn o Iedeg ar gyfer ei waith. Yn y ffilm mae Solomon, sy'n Iddew, yn cwrdd â Chymraes. Ar ôl iddo orffen ffilmio bydd yn hedfan i Bortiwgal i ffilmio dwy bennod o'r ddrama deledu, *Hornblower*. Fe sy'n portreadu Horatio, yr arwr.

## HANNER CANRIF O ADDYSG GYMRAEG

Agorwyd yr ysgol Gynradd Cymraeg gyntaf yng Nghaerdydd yn 1949, gyda llai nag 20 o ddisgyblion. Bellach mae 8 ysgol gynradd a 2 uned yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i dros 2,000 o blant cynradd.

Yn 1978, sefydlwyd yr Ysgol Uwchradd gyntaf yng Nglantaf gyda 99 o ddisgyblion. Bellach mae'r ysgol lwyddiannus hon dan ei sang ac yn dysgu 1470 o ddisgyblion. Ym Medi 1998, agorir drysau'r ail ysgol Uwchradd Gymraeg, sef Ysgol Plasmawr yn Nhyllgoed.

Erbyn 1979 roedd Ysgol Bryntaf yn y 'Parade' yn un o ysgolion cynradd mwyaf Cymru gyda 650 o ddisgyblion. Rhannwyd yr ysgol gan sefydlu pedair ysgol newydd sef Melin Gruffydd yn yr Eglwys Newydd, Coed y Gof ym Mhentrebaen, Y Wern yn Llanisien a Bro Eirwg yn Llanrhymni. Yn fuan, bu'n rhaid ychwanegu at ffrydiau derbyn yr ysgolion hyn.

Fel ymateb i'r alwad a'r cynnydd sylweddol am addysg Gymraeg, sefydlwyd Ysgol Treganna (1986-1987); Ysgol Pencae, Llandaf (1990-1991); Ysgol Mynydd Bychan, (1993-1994) ac Ysgol Pwllcoch, Lecwydd (1996). Bydd yr ysgol olaf yn cael ei hadeilad newydd ac Uned Feithrin ym Medi 1999. Bwriedir agor uned Feithrin ym Melin Gruffydd ym Medi 1998.

Yn ddi-os, cyfraniad arbennig Mudiad Ysgolion Meithrin a fu'n sail cadarn i dwf yr ysgolion cynradd Cymraeg.

Yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yn Ebrill 1996, ymunodd unedau Cymraeg llwyddiannus Ysgolion Creigiau a Gwaelod y Garth gyda'r ddinas.

Mae 407 o ddisgyblion am ymuno â'r ysgolion cynradd Cymraeg ym mis Medi 1998. Amcangyfrir 441 ar gyfer 1999 a 465 ar gyfer 2000. Yn barod mae llawer o'r ysgolion dan eu sang, gyda dosbarthiadau dros 30.

Yn dilyn adroddiad Grŵp Tasg Cymraeg yr Awdurdod Addysg ar gynllunio ar gyfer y dyfodol, mae swyddogion y sir yn ystyried lleoliad yr ysgol gynradd Gymraeg nesaf. Mae ardaloedd y Rhath, Sblot, Tremorfa, Llanedeyrn a Chaerau dan ystyriaeth.

Yn y cyfamser, bydd rhaid i'r dalgylchoedd barhau'n hyblyg, ond, yn sicr, bydd cwtogi ar y teithio hir o fewn y ddinas. Yn wir, bu'r daith ddyddiol ar fws yr ysgol yn rhan anochel o ramant addysg Gymraeg yn y brifddinas.

Roedd cefnogwyr yr ymgyrch yn y blynyddoedd cynnar yn Gymry Cymraeg ac yn perthyn i'r dosbarth canol, ond yn fuan, ymunodd llawer o Gymry brwdfrydig di-Gymraeg i hawlio a mynnu addysg Gymraeg i'w plant. Ar ddechrau'r saithdegau, roedd 70% o'r disgyblion yn cartrefu yng ngogledd y ddinas, o Ben-y-lan i Landaf, ond erbyn heddiw, mae disgyblion o bob cwr o'r ddinas ac o gefndir cymdeithasol eang yn mynychu'r ysgolion Cymraeg.

Yn ystod yr hanner can mlynedd, bu cyfnodau o ansicrwydd, anghytundeb, anghydfod a phryderon, a diffyg cynllunio rhag blaen, ond yn awr, mae perthynas Rhieni dros Addysg Gymraeg a'r Awdurdod Addysg yn iachus, adeiladol a chadarnhaol.

Yn anad dim, bu'n hanner can mlynedd o gynnydd, twf a llwyddiant rhyfeddol. Canmolwn weledigaeth yr arloeswyr ac ymdrechion clodwiw a diflino pawb a fu'n gweithio yn y winllan. Boed i ni ymateb yr un mor frwdfrydig i'n cyfrifoldeb mawr ar gyfer y dyfodol.

*J.E. Malcolm Thomas*

# Gweithgareddau Pasg 1998

## Cynllun Chwarae'r Urdd
Roedd pob diwrnod yn llawn gyda 260 o blant o flynyddoedd 1, 2, 3 a 4. Cawson nhw lawer o hwyl gyda gweithgareddau megis celf a chrefft a choginio ac ymweliadau gan ddiddanwyr proffesiynol.

## Cwrs Athletau'r Urdd
Cynhaliwyd y cwrs hwn ddydd Iau, 23 Ebrill yn Athrofa Chwaraeon Cymru, Caerdydd.

Roedd y cwrs diwrnod ar gyfer disgyblion blynyddoedd 5 a 6 dan ofal arweinwyr proffesiynol a myfyrwyr Coleg Cyncoed. Yr oedd y cwrs eto'n llawn gyda 40 o blant.

## Cyrsiau Pêl-droed

Cynhaliwyd dau gwrs ddydd Llun, 20 Ebrill, un i flynyddoedd 1, 2 a 3 a'r llall i flynyddoedd 4, 5 a 6.

Roedd y ddau gwrs ar yr 'astroturf' yn Athrofa Chwaraeon Cymru, Caerdydd. Daeth 110 o blant ynghyd.

## Gweithdy Dawns
Cynhaliwyd y gweithdy ddydd Mawrth, 21 Ebrill yng Nghanolfan Hamdden y Metropolitan, Caerdydd dan arweiniad merched Eden. Roedd y cwrs yn orlawn gyda 40 o blant a phob un yn frwdfrydig iawn. Cafwyd cwrs gwych ac roedd BBC Cymru yno i ffilmio'r diwrnod ar gyfer rhaglen *Ffeil* ar *Uned 5*.

## Gweithdy Drama

Cynhaliwyd dau gwrs y tro hwn. Roedd un ar gyfer disgyblion cynradd a'r llall ar gyfer disgyblion uwchradd. Ieuan Rhys a Catrin Brooks oedd arweinwyr y gweithdai hyn a daeth 50 o blant ynghyd i fwynhau ac i elwa oddi wrth brofiad Ieuan a Catrin.

## Trip i Legoland, Windsor
Aeth 60 o blant o flynyddoedd 5 a 6 i Legoland ddydd Mercher, 22 Ebrill. Roedd y tywydd yn fendigedig ac fel y gwelir o'r llun isod cafwyd diwrnod gwych.



☆ ☆ ☆ ☆ ☆ ☆

## Clybiau newydd yr Urdd

### Clwb Criced
Cynhelir y clwb bob nos Iau ar gaeau Llandaf rhwng 5.30pm a 6.30 pm. Croeso i blant blynyddoedd 3, 4 a 5.

### Clwb Athletau

Cynhelir y clwb hwn bob nos Fercher ar gaeau Llandaf, unwaith eto rhwng 5.30pm a 6.30 pm. Y tro hwn mae croeso i blant blynyddoedd 4, 5 a 6.

POB LWC I BAWB FYDD YN CYSTADLU YN EISTEDDFOD YR URDD, PWLLHELI!

**Swydd Hwyl Haf, RhAG**
Swydd Cydlynydd Hwyl Haf Caerdydd
(Noddwyd gan BBC Plant Mewn Angen)
Oriau fflecsi - 75 awr dros 5 wythnos, £7.98 yn awr.
Am fanylion pellach, cysyllter ag Ethni Jones:
01446 760383 .

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## HOCI IÂ I'R ANABL



Ym mis Mawrth eleni roedd Cymro Cymraeg o Gaerdydd, Llŷr Gwyndaf (28), yn cymryd rhan yn y Chwaraeon Paralympic i'r anabl yn Nagano, Siapan.

Y mae Llŷr yn aelod o dîm hoci iâ anabl Prydain ac yn gapten tîm Caerdydd a'r cylch - Hysgwn West'n Welsh (*West'n Welsh Huskies*). Yn gynharach eleni bu'n chwarae hefyd gyda thîm Prydain yn Norwy a Sweden.

Er bod yn rhaid i bob aelod o'r tîm fod yn anabl, yr un rheolau yn union sydd i'r chwarae â hoci iâ arferol. Clymir y chwaraewyr ar sled neu sglefrfwrdd arbennig a symudant yn eithriadol o gyflym ar y cylch iâ drwy ddefnyddio dwy ffon fer â phigau dur ar eu blaenau. Dyma'r ffyn hefyd, wrth gwrs, a ddefnyddir i daro'r bêl rwber galed (y "puck").

Nid enillodd tîm Prydain yr un fedal y tro hwn yn Siapan. Serch hynny, bu'n daith fythgofiadwy. Ar ran darllenwyr *Y Dinesydd* estynnwn ein llongyfarchiadau cynnes i Llŷr a dymunwn yn dda iawn iddo ef a'i gyd-chwaraewyr yn y dyfodol.



Llŷr Gwyndaf ar y cylch iâ yng Nghaerdydd

## RYGBI



Diolch na fydd yn rhaid imi wylio gornest ryngwladol tan yr hydref (ar wahân - efallai - i honno ym Mhretoria ar y teledu). Mi gefais fwy na llond fy mol y tymor diwethaf ar ôl y fuddugoliaeth lachar yn Wrecsam dros Romania. Yn y saith gornest arall nid oedd fawr i'w ganmol: sgoriwyd 17 o geisiadau gan ildio 28, ac ym Mhencampwriaeth y Pum Gwlad y mae'r ystadegau'n filgwaith gwaeth. Yn y pedair gornest hynny, ildiwyd 19 cais a sgorio 8 yn unig. 145 o bwyntiau'n ein herbyn oedd yn 25 yn fwy nag yr ildiodd Yr Alban, ac yn 45 yn fwy nag ildiodd y Gwyddyl. (A dyma'r tro cyntaf inni fethu sgorio o gwbl yn erbyn Ffrainc - ffaith na chlywyd sôn amdani unman). Anodd fyddai peidio â chyfaddef nad hwn oedd y tymor gwaethaf yn holl hanes y genedl, ac ni welaf obaith mwy.

Onid braf fyddai gallu troi at y clybiau a chael rhyw fymryn i'n calonogi? Ie'n wir, ond dudew ydyw yma hefyd a'r Undeb a'r prif glybiau'n benben â'i gilydd. Yr oeddem ar ei chanol pan oeddwn i'n ysgrifennu'r llith hon - Caerdydd yn bygwth ymuno â chynghrair Lloegr oni chaent eu ffordd ynglŷn â chytundeb deng mlynedd rhwng wyth clwb y brif adran a'r Undeb. Tîm y brifddinas a chartref y Cynulliad yn cefnu ar eu gwlad i chwarae yn Sale a Newcastle a Chaerfaddon brynhawn Sadwrn! Gwae ni - a nhw; ac yr oeddwn newydd ddarllen, awr neu ddwy cyn dechrau ysgrifennu, fod y rheini oedd yn ymwneud â'r gêm ddienaid honno o Ogledd Lloegr yn gweld eu cyfle i sefydlu tîm yn y wlad hon unwaith yn rhagor. Dyna fyddai'r ergyd olaf un yn ddîau.

Ond beth am glwb Caerdydd y mae miliwnydd o gadeirydd a thrysorydd ganddo? Ni ellid ei rwystro rhag chwarae dros y ffin, am wn i, ond dylid gwneud popeth posibl i'w gadw yma. Bûm yn holi cyfaill a gwyliwr cyson ers blynyddoedd lawer ym mharc Caerdydd ynglŷn â hyn, a synnu braidd, rhaid dweud, wrth glywed ei fod yn cydymdeimlo i raddau â safbwynt pwyllgor y clwb. Gan ei bod yn gêm broffesiynol, busnes yw clwb bellach, ac arian yw'r prif bwnc wrth drafod materion y clwb: tueddu i anwybyddu sôn am arian a busnes y bûm i o ddechrau proffesiynoldeb, ac felly ni fu gennyf fi unrhyw gydymdeimlad ag agwedd Caerdydd neu unrhyw glwb arall ychwaith, wrth reswm, a fyddai'n ymdrechu i'r eithaf yn erbyn yr Undeb er ennill annibyniaeth.

Mae hi'n waeth byth yn Lloegr ond rhyngddyn nhw a'u cawl, ac nid arian yw'r brif broblem yno (mae gan glwb Harlequins ryw bymtheg miliwnydd ar ei bwyllgor yn ôl y sôn). Aeth fy nghyfaill yn ei flaen i sôn am bwysigrwydd senedd wedyn - Cynulliad sydd gennym ar hyn o bryd, ond hwyrach y gellir denu diwydiant a masnach gan hwn hyd yn oed, er mwyn creu gwlad gyfoethog. Yna byddai arian gan ein clybiau i sicrhau y gallent dalu eu chwaraewyr digon, ac o'r herwydd eu cadw yn y wlad; mae saith o'n chwaraewyr gorau yng nghlwb Richmond ar hyn o bryd, tri yng Nghaerfaddon a dau yn Harlequins, a rhai eraill yma ac acw. (Yr oedd pedwar a chwaraeai i glybiau Lloegr yn y tîm yn erbyn Lloegr, ond neb, gan fod yn rhaid i Alan Bateman dynnu'n ôl, yn erbyn Ffrainc).

Pan gawn senedd lawn - ac fe'i cawn yn ôl fy nghyfaill - y bydd digon o arian yma i'r clybiau drefnu eu materion fel y mynnont. Ond a allwn aros nes y daw'r senedd, dyna'r cwestiwn; ni chredaf y gallwn, ac felly rhaid i'r Undeb a'r clybiau mawr bob un ddod at ei gilydd yn ddiymdroi, gan sylweddoli bod dyfodol rygbi yn ein gwlad yn y fantol ac na fydd gennym obaith caneri ar y meysydd rhyngwladol oni fydd arweiniad a chyfaddawd a chydymdeimlad yn bodoli.

Erfyniaf ar holl aelodau a chefnogwyr Caerdydd i sicrhau nad â'n clwb enwocaf byth i chwarae yng nghynghrair Lloegr.

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gareth Kiff

Erbyn hyn byddwch yn edrych ymlaen at ddiwedd y cyrsiau. Dim ond rhyw fis i fynd cyn i chi orffen dosbarthiadau Cymraeg a gallu aros o flaen y teledu bob nos!

Ond cofiwch pa mor bwysig ydy hi i ymarfer eich Cymraeg drwy'r flwyddyn. Cofiwch fynd i nosweithiau CYD yn y tafarndai, cofiwch gadw mewn cysylltiad â'ch ffrindiau o'r dosbarth ac i ddefnyddio eich Cymraeg ar bob cyfle. Eleni bydd yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, llai na 30 munud i ffwrdd yn y car. Ewch i glywed, siarad a mwynhau'ch hunain trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd nifer o ysgolion undydd yn cael eu cynnal hefyd yn ystod y gwanwyn, bydd eich tiwtoriaid yn dweud wrthoch amdanyn nhw.

## CANLYNIAD Y GYSTADLEUAETH YSGRIFENNU

Llongyfarchiadau i Jane Watkin ar ennill y gystadleuaeth ysgrifennu ym mis Chwefror. Enillodd Jane, sy'n astudio ar y cwrs Wlpan yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg ( 42 Plas y Parc), fideo newydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

## CWRS LLANGRANNOG

Cafodd pawb hwyl mae'n debyg ar y cwrs preswyl yn Llangrannog ym mis Ebrill. Diolch i Helen Prosser a'r holl diwtoriaid oedd wedi dysgu'n wirfoddol. Cofiwch fynd ar y cwrs nesaf ym mis Hydref !

## CLWB HAMDDEN CYD

Aeth criw o ddysgwyr ar benwythnos cerdded yn Sir Benfro ddiwedd y mis diwethaf. Unwaith eto roedd pawb wedi mwynhau eu hunain ac wedi gweld Cymru'n ennill gêm rygbi ( am unwaith ) ar y teledu. Diolch i Dafydd Bridle am ei waith trefnu.

## CYFRES Y CYMRY ENWOG

Bob mis byddwn yn edrych ar fywyd rhyw Gymro neu Gymraes enwog. Mae llawer o enwogion o Gymru, efallai bod mwy ohonyn nhw na 'dych chi'n feddwl. Y mis yma dechreuwn ni gyda menyw enwog iawn o Gaerdydd, sef Shirley Bassey.

Dechreuodd plentyn byd-enwog Tiger Bay, Shirley Bassey, ar ei gyrfa gerddorol yn yr Asor Clwb, Llundain. Yn 1955 cafodd hi ei chyflogi gan yr *impresario* Jack Hylton a'r flwyddyn ganlynol dechreuodd hi wneud recordiau. Rhai o'i chaneuon enwocaf yw *Kiss Me, Honey Honey, Kiss Me*, a'r gân thema o ffilm James Bond, *Goldfinger*, ac wrth gwrs *Big Spender*. Mae hi wedi ennill ugain disg aur ac un deg pedwar o ddisgiau arian. Mae hi'n byw ym Monte Carlo ar hyn o bryd ond mae hi'n dod yn ôl i Gymru o bryd i'w gilydd er mwyn canu o flaen ei chefnogwyr yng Nghaerdydd.

## MENTER CAERDYDD

Y mae Menter Caerdydd wedi sefydlu gweithgor dysgwyr/hamdden gyda'r bwriad o gynyddu'r cyfleoedd lle gall Cymry Cymraeg a dysgwyr ddefnyddio'r iaith yn eu horiau hamdden. Un o'i brosiectau yw sefydlu clwb chwaraeon lle bydd yr aelodau'n gallu cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau - megis sboncen, tenis, rygbi a phêl-droed pump bob ochr, clwb cerdded a.y.y.b.- a hynny'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd y mae'r gweithgor yn chwilio am wirfoddolwyr brwd ac ymroddedig a allai naill ai helpu i sefydlu a rhedeg y clwb chwaraeon neu a hoffai gyfrannu i rai o brosiectau eraill y gweithgor. Os hoffech ragor o wybodaeth cysylltwch â Richard Lewis, 38 Inverness Place, Y Rhath, Caerdydd. CF2 4RZ. Ffôn: gwaith (01222) 874710, gartref (01222) 470803.

## CLWB GWAWR PENARTH A'R CYLCH

Cychwynnwyd clwb Cymraeg i famau plant ysgol a merched ifainc sengl. Ei bwrpas yw cymdeithasu drwy'r Gymraeg. Y gobaith yw trefnu nosweithiau allan. e.e. i'r Hollywood Bowl. Gobeithir denu dysgwyr ond bydd y clwb yn uniaith Gymraeg. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 27 Ebrill yn Baron's Court, Penarth am 8 o'r gloch. Os ydych chi am ragor o fanylion cysylltwch â Tracy Jacob (307686) neu Siân Ellis (513789).

## MERCHED Y WAWR A DYSGWYR

Bob blwyddyn bydd cangen Caerdydd o Ferched y Wawr yn neilltuo un noson i groesawu dysgwyr Cymraeg i'w plith. Cynhaliwyd y cyfarfod eleni ym mis Mawrth yn festri Minny Street pan ddaeth dros ugain o ddysgwyr ynghyd i fwynhau noson o siarad, canu a chwisiau dan arweiniad Gwilym Roberts. Croesawyd pawb gan Mallt Anderson, llywydd y gangen eleni.

## DYDDIADUR DIGWYDDIADAU - CAERDYDD A'R FRO

| | |
|---|---|
| **Pob Nos Lun**<br>9.00pm ymlaen | Tafarn y Pen a Wig, Park Grove, Caerdydd.<br>Ffoniwch Rhobat Bryn Jones 01222 874710. |
| **Pob yn ail ddydd Mawrth**<br>12.30 - 2.00pm | Clwb Coffi y Fro, Coleg Cymunedol y Bont-faen.<br>Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob dydd Mercher**<br>12.00 - 2.00pm | Clwb Coffi, Clwb Ifor Bach, Stryd Womanby, Caerdydd.<br>Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob nos Fercher**<br>9.00pm ymlaen | Tafarn y Tavistock, Stryd Bedford, Y Rhath, Caerdydd.<br>Ffoniwch Gareth Kiff 01222 486469. |
| **Pob nos Iau**<br>9.00pm ymlaen | Lolfa Gwesty Parc y Rhath (*Roath Park Hotel*),<br>Heol y Plwca (*City Road*), Caerdydd. |
| **Pob bore Gwener**<br>9.45 - 11.45am | Clwb Coffi y Barri, Canolfan Palmerston.<br>Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |

Am ragor o fanylion am gyrsiau Cymraeg cysylltwch â Nigel Ruddock, Tiwtor Drefnydd Dysgu Cymraeg i Oedolion, Coleg Glan Hafren ar 01222 250439. Os hoffech chi hysbysebu unrhyw ddigwyddiadau ar gyfer pobl sy'n dysgu Cymraeg cysylltwch â Gareth Kiff ar 01222 486469.



# Mae gennych efeilliaid, ond dim ond digon o fwyd i un. Pa un sy'n cael ei fwydo?

Llun: Sue Cunningham

Pan anwyd efeilliaid i Meseret Nara doedd neb yn dathlu. Roedd ganddi eisoes gegau newynog i'w bwydo. Roedd cael dau arall yn drychineb.

Roedd Meseret yn gwybod ond yn rhy dda beth mae diffyg bwyd yn ei olygu i faban sy'n cael ei eni mewn tre sianti: bydd y baban yn marw. Roedd hi eisoes wedi colli un baban cyn ei fod yn flwydd oed, a gyda dim ond un o bob tri efaill yn byw i ddathlu eu penblwydd cyntaf, pam ddylai ei rhai hi fod yn wahanol?

Bu Meseret yn ffodus. Yn Ethiopia, mae Cymorth Cristnogol yn cefnogi mudiad sy'n helpu'r teuluoedd tlotaf i ddygymod â chael efeilliaid a thripledi. Cafodd ei theulu ei roi ar raglen fwydo arbennig, cawsant ofal iechyd a help i ddysgu sgiliau ar gyfer byw yn y dyfodol. Ond i ormod o famau yn y Trydydd Byd, does dim help fel hyn ar gael a bydd natur yn cymryd ei chwrs anorfod.

Felly, erfyniwn arnoch eleni yn Wythnos Cymorth Cristnogol i'n helpu ni i arbed teuluoedd rhag gorfod gwneud dewisiadau amhosibl. Llenwch y cwpon neu ffoniwch ni i wneud cyfraniad. Byddwch yn cynnig ateb i'n cwestiwn cyntaf ni.

**Os gwelwch yn dda, anfonwch gyfraniad ar unwaith.Ffoniwch**

**01222-614435**

Amgaeaf siec/Archeb Post taladwy i Cymorth Cristnogol am: £250* ☐ £200 ☐ £100 ☐ £50 ☐ £25 ☐ £10 ☐ Arall £ ____ neu debydwch fy ngherdyn credyd (Mastercard/Visa/Arall) ________ Rhif cerdyn. ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐ dyddiad gorffen ______

Llofnod ________ Enw ________

Cyfeiriad ________

________ Côd Post ______

Anfonwch eich rhodd at Cymorth Cristnogol, Blwch Post 21, Caerdydd CF4 2DX

Ymwelwch â ni ar y wê www.christian-aid.org.uk

* Cymorth Cristnogol

**Cymorth Cristnogol**

**Credwn mewn byw cyn marw**

Elusen gofrestredig rh. 258003

# CYFLE I ENNILL WRTH BRYNU LLYFR

**DEFNYDDIWCH Y TOCYN MANTAIS 50c I BRYNU UN O'R LLYFRAU YMA A BYDD CYFLE I CHI ENNILL GWOBRAU ARBENNIG**

PENWYTHNOS YN NULYN gan gwmni Seren Arian, Caernarfon (Silver Star) ☎ 01286 672333

Pecyn llyfrau gwerth o leiaf £20 i'r 100 enw cyntaf o'r het

*Noddwyd gan* Banc Midland

50c **TOCYN MANTAIS 50c**
**YMGYRCH HYBU FFUGLEN**
i'w gyfnewid yn eich siop lyfrau leol cyn 31 Mai 1998

ENW ______________________

CYFEIRIAD ______________________

______________________

COD POST ______________________

ENW'CH PAPUR BRO ______________________

FFÔN ______________________

TEITL Y LLYFR A BRYNIR ______________________

Rwyf dros 18 oed. Hoffwn dderbyn manylion am Gerdyn Cymru Banc Midland ☐

I'R LLYFRWERTHWYR: Gallwch gyfnewid y tocynnau am arian drwy eu dychwelyd erbyn 30 Mehefin 1998 at: Yr Adran Farchnata, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB.




**RHYW CHWARAE PLANT**
Elgan Philip Davies
Cymdeithas Lyfrau Ceredigion £5.95





**I BLE'R AETH HAUL Y BORE?**
Eirug Wyn
Y Lolfa £5.95

**PAM FI ETO, DUW?**
John Owen
Y Lolfa £5.95



**LLEUAD A LLUN**
Nest Lloyd
Gomer £3.50

**HOWARTH A JAC BLACK**
Harri Parri
Gwasg Pantycelyn
£4.95

**LLEN DROS YR HAUL**
Sonia Edwards
Gwasg Gwynedd
£4.50




**PENBLETH JOHN AARON**
Glennys Roberts
Gwasg Gwynedd
£3.95







**DIM OND UN**
Eirwen Gwynn
Gomer £7.95



**NAW MATH O GI**
Mary Hughes
Gomer
£3.50






**NEWYDDION DDOE**
Addas. Annes Glynn
Gwasg Carreg Gwalch
£3.95

## Gogledd-Orllewin Llydaw

**Ffermdy wedi'i adnewyddu ar osod.**

Dwy lofft â gwelyau i 4/5. Tua hanner awr i'r gorllewin o Roscoff. Tair milltir o'r môr. £260 yr wythnos. Erys rhai wythnosau'n rhydd eleni: ym Mehefin, dechrau Gorffennaf, Medi a Hydref. Am fanylion ffoniwch Bodawen 01443 791617 ar ôl 4.00 p.m.

## TRYDANWR

gyda dros

20 mlynedd o brofiad

Prisoedd rhesymol am ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd.

**Ffoniwch Caerwyn Davies ar**

**01222 868208**

**neu 0468 973229**

## J. A. HUGHES gyda REES WOOD a TERRY

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222